Ffurflen SA1: Cais am fynediad i ddata personol a gedwir ar systemau gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys

Adran 7 (1)(a) a 7(1)(b)(i) a 7(1)(c)(i) o Ddeddf Diogelu Data 1998 (Mynediad gan y Gwrthrych)

Eich Hawliau 'Mynediad gan y Gwrthrych'
Ar wahân i rai eithriadau, mae gennych hawl i gael gwybod ai yw Heddlu Dyfed-Powys yn cadw unrhyw wybodaeth amdanoch (eich 'data personol') a hawl i gael copi o'r wybodaeth honno ymhen cyfnod o 40 diwrnod.

Os byddwch yn dymuno arfer yr hawliau hyn, llenwch y ffurflen hon yn ofalus gan ddilyn y cyfarwyddiadau'n ymwneud â'r ffi o £10, prawf o bwy ydych chi a sut i ddychwelyd y ffurflen i Heddlu Dyfed-Powys.

O dan rai amgylchiadau, mae'r Ddeddf Diogelu Data yn caniatáu i Heddlu Dyfed-Powys i beidio â rhyddhau data personol i chi. Er enghraifft, ni fyddwn yn rhoi data personol os credwn fod ei rhyddhau yn debygol o niweidio gwaith yr heddlu ac nid oes raid i ni ryddhau gwybodaeth a allai arwain at adnabod unigolion eraill.

Ffi
Bydd eich Cais Mynediad gan y Gwrthrych yn costio £10. Fe'ch anogir i dalu â siec oherwydd gall rheoliadau'n ymwneud â thrafod arian parod achosi oedi wrth brosesu eich cais. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Heddlu Dyfed-Powys'. Rhaid i Archebion Post fod yn rhai o'r DU.

Prawf o Bwy Ydych Chi

Rhaid i Heddlu Dyfed-Powys gael prawf o bwy ydych chi. Mae Adran 3 felly yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth i gadarnhau pwy ydych chi ac hefyd eich cyfeiriad. Gellir gwneud hynny trwy gyflwyno copïau o o leiaf dwy ddogfen swyddogol sydd rhyngddynt yn cadarnhau eich enw, eich dyddiad geni, eich cyfeiriad cyfredol a'ch llofnod.

Dychwelyd y ffurflen hon
Dylid anfon y ffurflen wedi'i llenwi ynghyd â'r ffi briodol a'r dogfennau sy'n profi pwy ydych chi, eich dyddiad geni a'ch cyfeiriad, at Heddlu Dyfed-Powys, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF neu i un o brif orsafoedd yr heddlu. Noder nad oes gan bob gorsaf yr heddlu yr adnoddau i dderbyn a phrosesu'r ffi.

ADRAN 1. Amdanoch Chi (Defnyddier prif lythrennau ac inc du os gwelwch yn dda)

Teitl (Mr,Mrs,Miss,Ms,Dr,Parch etc) …….. Cyfenw/Enw Teuluol ……

Enw(au) Cyntaf: ……

Enw(au) Cyn Priodi/Eraill: …… Rhyw (Gwryw/Benyw): ……

Dyddiad Geni …… Lleoliad Geni (Tref a Sir/Gwlad): ……

Taldra ……

Cyfeiriad eich Cartref (gan gynnwys Côd Post). Anfonir pob gohebiaeth i'r cyfeiriad hwn oni fyddwch yn gorchymyn fel arall:-

……

……Cod Post……

Rhif(au) Ffôn (Dydd)* Gwaith…….. Cartref ……..

Cyfeiriad(au) E-bost* Gwaith …… Cartref ……

* Nid oes rhaid i chi roi'r manylion hyn ond fe allant fod yn ddefnyddiol os bydd angen cysylltu â chi i drafod eich cais.

Cyfeiriad Amgen ar gyfer Derbyn Gwybodaeth - Llenwch yr adran hon dim ond os ydych am i ni anfon yr ateb i gyfeiriad heblaw eich cyfeiriad cyfredol. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth yn cadarnhau eich cysylltiad â'r cyfeiriad hwn:-

……

……Cod Post……

Defnyddir y wybodaeth a ddarperir at bwrpas y cais hwn ar gyfer gweinyddu'r cais ac i sicrhau cywirdeb Systemau'r Heddlu.

Cyfeiriadau Blaenorol: Os ydych wedi bod yn byw yn y cyfeiriad uchod am lai na deng mlynedd, nodwch eich cyfeiriad(au) blaenorol ar gyfer y cyfnod hwnnw yn y blwch isod. Parhewch ar dudalen arall a bo angen.

Cod Post	**Cod Post**

Adran 2. Data Personol a Geisir

☐ Ticiwch yma os ydych am gael mynediad i fanylion am Arestiad, Erlyniad, Euogfarn, Rhybudd, Cerydd neu Siars. Mae hynny'n cynnwys manylion a gedwir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) am bobl a arestiwyd, troseddwyr, pobl a ddrwgdybir o fod yn droseddwyr, pobl sydd wedi'u rhybuddio, eu ceryddu a'u siarsio ac sy'n aros i fynd ger bron llys. Ni chedwir cofnod am bob arestiad, erlyniad, euogfarn, rhybudd, cerydd a siars ar y PNC.

☐ Ticiwch yma os ydych yn dymuno cael data personol arall heblaw'r uchod. I'n helpu i ddod o hyd i wybodaeth a all fod yn cael ei gadw amdanoch, a wnewch chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn y blwch isod (gan barhau ar dudalen arall a bo angen). I'n cynorthwyo, dylech gynnwys, ble y bo'n berthnasol, disgrifiad o'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani, cyfeirnod trosedd neu rif digwyddiad; disgrifiad o'r amgylchiadau'n ymwneud â'ch cysylltiad â'r heddlu - er enghraifft, ai person yn riportio trosedd neu ddigwyddiad oeddech chi, neu dyst, neu ddioddefydd, neu ohebydd, neu droseddwr, ac ati. Nodwch y dyddiadau a'r amserau ac unrhyw wybodaeth arall sydd gennych a allai ein helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych chi'n ei cheisio. Os ydych yn gwneud cais am ffotograff neu gofnod ffilm TCC a wnewch chi ddarparu ffotograff o'ch wyneb (e.e. ffotograff pasbort) i'n helpu i'ch adnabod.
Noder os gwelwch yn dda y gall methiant i ddarparu manylion felly olygu bod eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd i chi. (parhewch ar dudalen arall a bo angen).

Adran 3. Dogfennau sy'n profi pwy ydych chi

I'n cynorthwyo i gadarnhau pwy ydych chi, rhaid i chi anfon copïau o o leiaf dwy ddogfen swyddogol sydd rhyngddynt yn cadarnhau eich **enw, dyddiad geni, cyfeiriad cyfredol a'ch llofnod**. Er enghraifft, cyfuniad o drwydded gyrru, cerdyn meddygol, tystysgrif geni/mabwysiadu, pasbort ac unrhyw ddogfen swyddogol arall sy'n cynnwys y manylion hyn.

Adran 4. Datganiad (i'w lofnodi gan yr ymgeisydd)

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn y cais hwn yn gywir a fi yw'r person y mae'n cyfeirio ato.

Llofnod …… Dyddiad ……

Rhybudd – Gall person sy'n cymryd arno neu'n ceisio cymryd arno mai person arall ydyw fod yn euog o gyflawni trosedd.

Os byddwch angen cyngor neu arweiniad wrth lenwi'r cais hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r:
Swyddfa Diogelu Data, Heddlu Dyfed Powys, Pencadlys yr Heddlu, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF.
Rhif Ffôn: 0845 330 2000

AT DDEFNYDD YR HEDDLU'N UNIG

I'w lenwi gan y swyddog sy'n derbyn y cais:-

Sicrhewch fod y ffurflen wedi'i chwblhau a'i bod yn ddealladwy a'ch bod wedi eich bodloni ynglŷn â phwy yw'r ymgeisydd. Yna llenwch y ffurflen isod yn unol â hynny. Anfonwch y ffurflen i swyddfa Diogelu Data ym Mhencadlys yr Heddlu.

Wedi'i wirio ac yn ddarllenadwy? ……Ydy/Nac ydy	Dyddiad y derbyniwyd y cais ……
Dogfennau adnabod wedi'u gwirio? ……. Ydynt/Nac ydynt	Cwblhawyd gan: Rheng/Rhif ……...
Manylion Dogfennau Adnabod ……..	Enw ……
……..	Gorsaf ……..
Dychwelwyd dogfennau adnabod? …… Do/Naddo	
Talwyd £ ……. Rhif derbynneb ……..	
Dull o dalu ……..	Llofnod ……...